

No.

## **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, R. Crowley, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson, S. Sivagnanam a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr P.G. King a N.Moore.

### 495 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 496 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd G.A. Cox.

### 497 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

### 498 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd) fuddiant yn Eitem 5 ar yr Agenda – Monitro Cyfalaf ar gyfer y Cyfnod 1 Ebrill - 31 Awst, 2021 yn dweud ei fod yn Ymddiriedolwr Canolfan Gymunedol ym Mhenarth ac y byddai'n gadael yr ystafell pe bai'r mater yn cael ei drafod.

### 499 MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 AWST 2021 – CABINET: 11 HYDREF, 2021 (CYF) -

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth/Swyddog Adran 151 sylw, wrth gyflwyno'r adroddiad, at yr heriau i'r Cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd goblygiadau parhaus pandemig Covid-19 a hefyd i'r gorwariant disgwylidig gan y Gwasanaethau Cymdeithasol o £1.15 miliwn a'r Amgylchedd a Thai o £1.5m.

No.

Roedd Atodiad 1 i'r adroddiad yn manylu ar y targedau arbed ar gyfer 2021/22 gyda phob targed arbedion yn cael statws CMG. Yn bresennol roedd gwasanaethau'n gweithio ar gynlluniau i gyrraedd y targedau; fodd bynnag, rhagwelwyd y gallai fod diffyg o £170,000. Byddai'r Pwyllgor yn cael diweddariadau pellach yn yr adroddiad monitro nesaf.

Holodd y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson wrth gyfeirio at orwariant ynghylch a oedd y pwysau o ran Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwysau ledled Cymru, ac o ran y gorwariant lleol h.y. cyllid gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff a chontractau teledu cylch cyfyng, beth fyddai'r targed terfynol ar gyfer datrys y rhain. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod cryn dipyn o lobio gyda Llywodraeth Cymru a CLILC yn parhau i gael ei wneud yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. O ystyried Rheoli Gwastraff, roedd y gwasanaeth wedi cwblhau cynllun busnes 10 mlynedd yn ddiweddar gydag adroddiad am y materion i'w cyflwyno i'r Cabinet cyn y Nadolig. Roedd trafodaethau teledu cylch cyfyng yn parhau â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau gyda'r gobaith o adrodd yn fwy cadarnhaol yn y dyfodol.

Holodd y Cynghorydd G.D.D. Carroll a oedd unrhyw asesiad wedi'i wneud ar effaith bosibl chwyddiant ar wariant refeniw yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac mewn ymateb i hyn, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth ei bod yn cael ei monitro ar hyn o bryd.

Holodd y Cadeirydd am yr effaith ar argaeledd staff asiantaeth y Cyngor ac a oedd cost llogi yn codi. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth mewn ymateb wrth y Pwyllgor fod staff asiantaeth yn cael eu cyflogi mewn gwahanol wasanaethau a bod nifer o staff asiantaeth hefyd wedi'u cyflogi'n barhaol. Fodd bynnag, mewn rhai gwasanaethau, roedd pwyntiau pwyso o ran recriwtio ar gyfer swyddi parhaol ac roedd staff asiantaeth ac Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gydag adrannau lle roedd y problemau hyn yn bodoli. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai codi ymwybyddiaeth bellach o fanteision gweithio mewn Llywodraeth Leol fod o fudd yn ogystal â chyfluoedd adleoli i staff a allai ddymuno newid cyfeiriad yn eu gyrfaedd.

O ystyried trafodaethau yn y cyfarfod,

ARGYMHELLWYD - NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2021/22 yr Awdurdod.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

500 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 AWST 2021  
2021 – CABINET: 11 HYDREF, 2021 (CYF) -

Mae'r cyfeiriad gan gyfarfod y Cabinet o 11 Hydref, 2021 yn rhoi diweddariad am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Awst 2021 gyda manylion y cynlluniau'n cael eu hamlinellu yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

No.

Nododd yr adroddiad hefyd unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2021/22 a'r blynyddoedd i ddod.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth/Swyddog Adran 151 sylw at y ffaith bod Brexit a Covid-19 hefyd wedi effeithio ar raglen tai'r Cyngor a fyddai'n parhau i gael ei monitro.

Tynnodd y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson sylw at ddyblu'r costau mewn perthynas â'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff a holodd a oedd ffordd o hawlio grantiau pellach. O ran paragraff 2.32 a materion cydymffurfio mewn perthynas â Chanolfannau Cymunedol, gofynnodd a oedd gan y Cyngor bolisi i CC wneud cyfraniadau ar gyfer materion o'r fath. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod nifer sylweddol o broblemau wedi effeithio ar ddarpariaeth y cynllun Trosglwyddo Gwastraff ac er bod cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru wedi dod i law yn flaenorol, roedd y Cyngor yn ceisio cymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn barhaus gan fod y costau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Roedd y cynllun hefyd yn cael ei reoli a'i fonitro'n agos er mwyn sicrhau y gallai'r contractwr ddangos tystiolaeth o'r costau uwch.

O ran materion cydymffurfio mewn Canolfannau Cymunedol, cytunodd y Pennaeth Gwasanaeth i ymchwilio i'r mater o gyfraniadau ac adrodd yn ôl i'r Aelod.

Ar yr adeg hon yn y cyfarfod, datganodd y Cadeirydd fuddiant yn y pwnc fel Ymddiriedolwr Canolfan Gymunedol ym Mhenarth yn dweud y byddai'n gadael yr ystafell pryd byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal.

Holodd y Cynghorydd G John, wrth gyfeirio at grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhandiroedd, ynghylch sefyllfa bresennol y Cyngor gan gofio bod y Cyngor wedi bod yn trafod â Chyngor Tref a Chymuned i'r CTCh gymryd cyfrifoldeb dros ddarpariaeth o'r fath o dan y rhaglen ail-lunio. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'n ymchwilio i'r cynigion presennol ar gyfer rhandiroedd ac yn adrodd yn ôl i'r Aelod.

Holodd y Cynghorydd G. Carroll am y ffigur o £75k ar gyfer Cynlluniau Parcio Preswyl a dywedwyd wrth y cynghorydd fod hyn yn ymwneud â chynlluniau nad oedd wedi dechrau eto.

Wedi ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD – NODI'R cynnydd a wnaed ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 .

Rheswm dros yr argymhelliad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

501 ARCHWILIO CYMRU - ASESIAID CYNALIADWYEDD ARIANNOL  
CYNGOR BRO MORGANNWG 2021 (RG) –

Cyflwynodd S. Wyndham ac I. Phillips (cynrychiolwyr o Archwilio Cymru) yr adroddiad ar y cyd i'r Pwyllgor a oedd yn rhoi gwybod am ganfyddiadau asesiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o gynaliadwyedd ariannol Bro Morgannwg ac ymateb y Cyngor i'w ganfyddiadau. Cynhaliwyd asesiad Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn 2020-21 mewn dau gam. Cynhaliwyd Cam 1 fel asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar y sefyllfa ariannol yn gynharach yn y flwyddyn ar y cyd â holl Awdurdodau Lleol Cymru. Roedd y canfyddiadau'n llywio'r adroddiad cryno cenedlaethol – [Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19](#) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020. Amlygodd yr adroddiad fod Cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond roedd cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn parhau i fod yn her barhaus.

Cwblhaodd yr adroddiad lleol atodedig (Atodiad A) gam 2 o waith asesu cynaliadwyedd ariannol Archwilio Cymru a wnaed yn ystod 2020-21 a ddaeth i'r casgliad bod Cyngor Bro Morgannwg mewn sefyllfa dda i gynnal ei wydnwch ariannol gyda lefel iach o gronfeydd wrth gefn a chynlluniau cynaliadwy i'w defnyddio.

Fodd bynnag, nododd yr adroddiad un Cynnig ar gyfer Gwella sef CG 1: O ystyried y bylchau ariannu a ragwelir yn 2022-23 a 2023-24, roedd angen i'r Cyngor benderfynu sut y byddai'n bodloni'r bylchau hynny, gan gynnwys i ba raddau y byddai arbedion yn cyfrannu at hynny.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau, nododd yr adroddiad y byddai'r bwlch ariannu parhaus yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o bennu cyllidebau ar gyfer 2022/2023 a byddai'r camau hyn yn cael eu cynnwys o fewn traciwr Insight ac yn cael eu datblygu gan y Cyngor. Byddai'r cynnydd hefyd yn cael ei fonitro gan Archwilio Cymru fel rhan o raglen waith archwilio flynyddol y Cyngor.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiadau Cynaliadwyedd Ariannol cenedlaethol a lleol gan gynnwys ymateb y Cyngor (camau arfaethedig uchod ac a nodir yn 2.6 yn yr adroddiad) gydag unrhyw argymhellion/sylwadau'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny, i'r Cabinet i ystyried a chymeradwyo'r camau arfaethedig i fynd i'r afael â'r Cynnig ar gyfer Gwella.

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson na fu unrhyw syndod iddo yn yr adroddiad a'i fod yn adroddiad newydd a thryloyw. Roedd nifer o'r materion a ddywedodd hefyd wedi'u nodi a'u trafod mewn cyfarfodydd blaenorol yr oedd wedi'u mynychu o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, roedd ei bryderon yn ymwneud â chronfeydd wrth gefn y Cyngor yn gyson uchel a bod, yn ei farn ef, y Cyngor yn gosod targedau arbedion cymhleth ei hun na fydd eu hangen o bosibl gan y gallai cyllid ddod o ffynonellau eraill. Wrth gyfeirio at dudalen 15 adroddiad yr Archwilydd, holodd hefyd am farn yr Archwilydd ynglŷn â'r cynnydd sylweddol yn ei asedau a'i

No.

rwymedigaethau ar gyfer 2021 ac a oedd y newidiadau wedi'u cymryd o ganlyniad i raglen adeiladu tai'r Cyngor.

Holodd y Cynghorydd G.D.D. Carroll am farn yr Archwilwyr am fod gan y Cyngor lefelau o gronfeydd wrth gefn o £10 miliwn.

Holodd y Cadeirydd wrth gyfeirio at y gymhareb prawf asid, o ran pa ddata oedd ar gael yn hyn o beth gan ei fod o'r farn bod hyn yn adlewyrchiad cywirach o hylifedd na'r gymhareb cyfalaf gweithio, cylch gwaith yr Archwilydd a pham yr oedd wedi edrych ar rai dangosyddion yn hytrach nag eraill.

Mewn ymateb i'r ymholiadau uchod, dywedodd yr Archwilydd mai'r sail a ddefnyddiwyd o ran hylifedd oedd yr un a ddewiswyd gan dîm y prosiect a oedd wedi dymuno sicrhau dull cyson ledled Cymru gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol. Fodd bynnag, byddai'n siarad â'r tîm i ystyried a fyddai unrhyw waith pellach ar hylifedd yn cael ei wneud. O ran y cronfeydd wrth gefn, dywedodd fod cronfeydd wrth gefn y Fro, yn ei farn ef, yn dderbyniol ac er nad oedd Archwilio Cymru yn rhagnodi lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn, byddent yn ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn yng nghyd-destun asedau a rhwymedigaethau pob Cyngor. Dywedodd ymhellach fod yr asedau a'r rhwymedigaethau yr adroddwyd amdanynt yn ymwneud â chipolwg mewn pryd yn seiliedig ar wybodaeth y fantolen ar 31 Mawrth, 2021, ychwanegodd nad oedd gan yr Archwilydd unrhyw bryderon ynglŷn â hylifedd. Yn wir, dywedodd fod y Fro yn un o'r uchaf yng Nghymru.

Wrth roi sylwadau pellach am gronfeydd wrth gefn y Cyngor, dywedodd yr Archwilydd nad oedd y Fro ar wahân i'r lleill o ran amcanestyniadau yn y dyfodol a'i bod yn wir yn ddull call gan nad oedd cymorth ariannol pellach fel yr hyn a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn bosibl.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 hefyd fod yr arian a dderbyniwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn syndod yn y lle cyntaf ac wedi'i ddarparu ar sail cynnydd yn y boblogaeth. Wrth grynhoi, ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y Cyngor yn tueddu i fod yn ddarbodus wrth ei flaengynllunio.

I gloi, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch bod y Cyngor wedi bod yn gall a'i fod wedi bod yn iawn i fod yn synhwyrol. Achubodd y Cadeirydd hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Gwasanaeth a'i thîm am yr holl waith caled a wnaed drwy gydol y pandemig.

**ARGYMHELLWYD -**

(1) NODI cynnwys yr adroddiadau cynaliadwyedd ariannol cenedlaethol a lleol gan gynnwys y canfyddiadau allweddol sy'n deillio o asesiad Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol Bro Morgannwg (Atodiad A i'r adroddiad) ac ymateb y Cyngor i ganfyddiadau'r asesiad a Chynnig Archwilio Cymru ar gyfer Gwella.

(2) CYFEIRIO'R adroddiadau at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am eu goruchwyliaeth ac yna i'r Cabinet i ystyried a chymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Ystyried gwaith craffu ac adolygu'r Pwyllgor ar ganfyddiadau asesiad Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol Cyngor Bro Morgannwg a heriau cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yn y dyfodol.
- (2) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn gweithredu meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru.

502 OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU 2IL CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) -

Tynnodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu wrth gyflwyno'r adroddiad sylw'r Aelodau at y camau gweithredu a'r cynnydd mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgorau Craffu fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad gyda'r cais bod y Pwyllgor Craffu hefyd yn ystyried y Flaenraglen Waith wedi'i diweddarau gan roi sylw i unrhyw lithriad ar gyfer 2021/22.

Wrth gyfeirio at y Rhaglen Waith cyfeiriodd y swyddog ymhellach at rai o'r sylwadau a awgrymodd y dylid tynnu rhai adroddiadau o'r rhestr ac yna

ARGYMHELLWYD -

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A a B yr adroddiad.
- (4) CYMERADWYO Cynllun Blaenraglen Waith y Pwyllgor a oedd wedi'i atodi yn Atodiad C yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor, yn amodol ar y canlynol:
  - Adroddiad Credyd Cynhwysol yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr
  - Dylid dileu adroddiad am feincnodi pellach mewn perthynas â chyflogau'r Prif Swyddogion ac Uwch Swyddogion o'r rhestr
  - Dylid dileu adroddiad am ddadansoddi ac ystyried cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol ymhellach o'r rhestr
  - Bod yr adroddiad am gymharu incwm sy'n deillio o bêl-droed dros y blynyddoedd diwethaf a nifer o dimau, yn parhau ar y rhestr ac yn cael ei adrodd fel y nodir yn ôl-weithredol.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) I'w hystyried ac er gwybodaeth.